**Cyd-bwyllgor Archwilio Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Dyfed-Powys**

# Cylch Gorchwyl

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r ddogfen hon yn diffinio cylch gorchwyl Cyd-bwyllgor Archwilio Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Dyfed-Powys, ei aelodaeth, a rolau a chyfrifoldebau'r aelodau.

## 2. DATGANIAD O DDIBEN

Diben y pwyllgor yw darparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar ddigonolrwydd trefniadau llywodraethu, risg a rheoli. Ei rôl yw sicrhau bod digon o sicrwydd ynghylch llywodraethu, risg a rheolaeth, sy'n rhoi mwy o hyder i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl bod y trefniadau hynny'n effeithiol.

Mae gan y cyd-bwyllgor archwilio oruchwyliaeth dros archwilio mewnol ac allanol, ynghyd â'r adroddiadau ariannol a llywodraethu, gan helpu i sicrhau bod trefniadau digonol ar waith ar gyfer herio mewnol ac atebolrwydd cyhoeddus.

## 3. Llywodraethu, risg a rheolaeth

Bydd y pwyllgor yn gwneud y canlynol:

- Adolygu'r trefniadau llywodraethu corfforaethol yn erbyn y fframwaith llywodraethu da, gan gynnwys y fframwaith moesegol, ac ystyried y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol (sy'n cynnwys y Cod Llywodraethu Corfforaethol, y Cynllun Cydsynio, y Rheoliadau Ariannol, a'r rheolau sefydlog ar gyfer contractau).
- Monitro datblygiad a gweithrediad effeithiol rheoli risg yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r heddlu.
- Monitro cynnydd wrth fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â risg a adroddwyd i'r pwyllgor.
- Ystyried adroddiadau ar effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a monitro gweithrediad y camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

- Ystyried adroddiadau ar effeithiolrwydd trefniadau rheoli ariannol, gan gynnwys cydymffurfio â Chod Rheoli Ariannol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, y Strategaeth Gyfalaf a Pholisi Rheoli'r Trysorlys.
- Ystyried trefniadau Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r heddlu i sicrhau gwerth am arian ac adolygu sicrwydd ac asesiadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn.
- Adolygu'r asesiad o risgiau twyll a'r niwed posibl i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r heddlu o ganlyniad i dwyll a llygredigaeth.
- Monitro'r strategaeth, y camau gweithredu a'r adnoddau gwrth-dwyll.
- Adolygu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd ar gyfer partneriaethau neu gydweithrediadau arwyddocaol.

## 4. ADRODDIADAU ARIANNOL A LLYWODRAETHU

### Adroddiadau llywodraethu

Bydd y pwyllgor yn gwneud y canlynol:

- Adolygu'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol cyn ei gymeradwyo gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl, ac ystyried a ydyw'n adlewyrchu'r amgylchedd risg a'r sicrwyddau ategol yn briodol, gan gynnwys barn flynyddol pennaeth yr archwiliad mewnol.
- Ystyried a ydyw'r gwerthusiad blynyddol ar gyfer y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn dod i'r casgliad teg bod trefniadau llywodraethu yn addas at y diben, gan gefnogi cyflawniad amcanion Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r heddlu.

### Adroddiadau ariannol

Bydd y pwyllgor yn gwneud y canlynol:

- Monitro'r trefniadau a'r paratoadau ar gyfer adroddiadau ariannol i sicrhau y gellir bodloni gofynion statudol a safonau proffesiynol.
- Adolygu datganiadau cyfrifon blynyddol. Yn benodol, i ystyried a ydyw polisïau cyfrifyddu priodol wedi'u dilyn ac a oes pryderon yn codi o'r

datganiadau ariannol neu o'r archwiliad y mae angen eu dwyn i sylw Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl.

- Ystyried adroddiadau'r archwilydd allanol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl ar faterion sy'n codi o archwilio'r cyfrifon.

## 5. TREFNIADAU AR GYFER ARCHWILIO A SICRWYDD

Bydd y pwyllgor yn ystyried fframwaith sicrwydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r heddlu ac yn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael yn ddigonol â'u risgiau a'u blaenoriaethau.

### Archwiliad allanol

Bydd y pwyllgor yn gwneud y canlynol:

- Cefnogi annibyniaeth archwiliad allanol drwy ystyried asesiad blynyddol yr archwilydd allanol o'i annibyniaeth ac adolygu unrhyw faterion a godir gan yr Archwilydd Cyffredinol neu Archwilio Cymru.
- Ystyried llythyr blynyddol yr archwilydd allanol, adroddiadau perthnasol a'r adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.
- Ystyried adroddiadau penodol fel y cytunwyd gyda'r archwilydd allanol.
- Rhoi sylwadau ar gwmpas a dyfnder y gwaith a wneir gan yr archwilwyr allanol a hybu'r gwaith o gyflawni gwerth am arian o archwiliadau allanol.
- Cynghori ar gomisiynau gwaith ychwanegol gan archwiliad allanol.
- Cynghori ac argymell ar effeithiolrwydd y perthnasoedd rhwng archwiliad allanol a mewnol ac asiantaethau arolygu eraill neu gyrff perthnasol.
- Darparu argaeledd rhydd a di-rwystr i'r archwilwyr at gadeirydd y pwyllgor archwilio, gan gynnwys y cyfle i gael cyfarfod preifat gyda'r pwyllgor.

### Archwiliad Mewnol

Bydd y pwyllgor yn gwneud y canlynol:

- Adolygu'r siarter archwilio mewnol i'w gymeradwyo.
- Adolygu cynigion a wneir mewn perthynas â phenodi darparwyr allanol o wasanaethau archwilio mewnol a gwneud argymhellion.
- Adolygu'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg, gan gynnwys gofynion adnoddau'r archwiliad mewnol, y dull o ddefnyddio

ffynonellau sicrwydd eraill ac unrhyw waith y mae ei angen i ddibynnu ar y ffynonellau hynny.

- Ystyried newidiadau dros dro sylweddol i'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg a'r gofynion o ran adnoddau.

- Gwneud ymholiadau priodol i'r rheolwyr a phennaeth yr archwiliad mewnol i benderfynu a oes unrhyw gyfyngiadau amhriodol o ran cwmpas neu adnoddau. Bydd cyfle hefyd i'r pwyllgor ystyried a rhoi sylwadau ar gwmpas adolygiadau archwilio mewnol.
- Ystyried unrhyw nam ar annibyniaeth neu wrthrychedd pennaeth archwilio mewnol sy'n deillio o rolau neu gyfrifoldebau ychwanegol y tu allan i archwilio mewnol ac argymell ac adolygu mesurau diogelwch yn rheolaidd i gyfyngu ar namau o'r fath.
- Ystyried adroddiadau gan bennaeth yr archwiliad mewnol ar berfformiad yr archwiliad mewnol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys perfformiad darparwyr allanol gwasanaethau archwilio mewnol. Bydd y rhain yn cynnwys:
    - diweddariadau ar waith archwilio mewnol, gan gynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n peri pryder a chamau gweithredu sydd ar y gweill o ganlyniad i waith archwilio mewnol
    - adroddiadau rheolaidd ar ganlyniadau'r rhaglen sicrhau a gwella ansawdd
    - adroddiadau ar achosion lle nad yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, gan ystyried a ydyw'r diffyg cydymffurfio yn ddigon sylweddol fel bod yn rhaid ei gynnwys yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol
    - ystyried bod gwaith yr archwilwyr mewnol yn cael ei wneud yn unol â Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn y sector cyhoeddus yn y DU, gan sicrhau bod y swyddogaeth archwilio fewnol yn dangos bod trefniadau digonol a phriodol ar gyfer ei llywodraethu
- Ystyried adroddiad blynyddol pennaeth yr archwiliad mewnol, gan gynnwys:
    - y datganiad o lefel y gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a chanlyniadau'r rhaglen sicrhau a gwella ansawdd sy'n ategu'r datganiad (bydd y rhain yn dangos dibynadwyedd casgliadau'r archwiliad mewnol)
    - y farn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth ar y cyd, ynghyd â chrynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn (bydd y rhain yn cynorthwyo'r pwyllgor i adolygu'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol)
- Ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol yn ôl y gofyn.

- Cael adroddiadau sy'n amlinellu'r camau a gymerwyd lle mae pennaeth archwilio mewnol wedi dod i'r casgliad bod y rheolwyr wedi derbyn lefel o risg a allai fod yn annerbyniol i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu neu'r heddlu, neu lle mae pryderon ynghylch cynnydd o ran rhoi camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar waith.
- Cyfrannu at y rhaglen sicrhau a gwella ansawdd, ac yn benodol at yr asesiad ansawdd allanol o archwilio mewnol sy'n digwydd o leiaf unwaith bob pum mlynedd.
- Ystyried adroddiad ar effeithiolrwydd archwilio mewnol i ategu'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.
- Rhoi argaeledd rhydd a di-rwystr i gadeirydd y pwyllgor archwilio ar gyfer pennaeth yr archwiliad mewnol, gan gynnwys y cyfle i gael cyfarfod preifat gyda'r pwyllgor.

## 6. TREFNIADAU ATEBOLRWYDD

Bydd y pwyllgor yn gwneud y canlynol:

- Adrodd i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl ar ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y pwyllgor ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd eu fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, trefniadau adroddiadau ariannol a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol.
- Adrodd i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn rheolaidd ar berfformiad y pwyllgor mewn perthynas â'r cylch gorchwyl, ac effeithiolrwydd y pwyllgor wrth gyflawni ei ddiben.
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar waith y pwyllgor, gan gynnwys casgliad ar gydymffurfiaeth â datganiad safbwynt y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

## 7. LLYWODRAETHU

**Cadeirydd:**

Bydd cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio yn cael ei benodi o blith aelodaeth y pwyllgor. Penodir cadeirydd bob dwy flynedd. Gellir ailbenodi'r un unigolyn yn gadeirydd ym mhob etholiad.

**Amlder:**

Bydd o leiaf pedwar cyfarfod pwyllgor ffurfiol a hyd at ddau weithdy / seminar yn cael eu trefnu bob blwyddyn. Gall Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio alw cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen. Gall Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a’r Prif Gwnstabl ofyn i’r Cyd-bwyllgor Archwilio alw cyfarfodydd pellach i drafod materion penodol y maent angen cyngor y pwyllgor arnynt.

## 8. AELODAETH

Bydd y Cyd-bwyllgor Archwilio yn cynnwys hyd at bump o bobl, yn annibynnol ar Heddlu Dyfed-Powys, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a’r Panel Heddlu a Throseddu.

Bydd aelodau’n cael eu penodi ar y cyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a’r Prif Gwnstabl. Bydd yr aelodau’n gwasanaethu ar y pwyllgor am dymor o bedair blynedd. Dylid cymryd gofal i osgoi cael tymor pob aelod yn dod i ben ar yr un pryd er mwyn sicrhau parhad. Ni fydd unrhyw unigolyn yn gwasanaethu ar y pwyllgor am fwy na chyfanswm o wyth mlynedd.

Er mwyn gwella hygrededd a statws y penderfyniadau y mae’r Cyd-bwyllgor Archwilio yn eu gwneud, bydd cworwm o dri aelod yn cael ei osod.

Gall cyd-etholiad fod o fudd ar gyfer mynegi barn annibynnol lle mae angen trafodaeth arbenigol. Ni fydd gan unrhyw aelod cyfetholedig hawliau pleidleisio.

Dylai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a’r Prif Gwnstabl fynychu neu gael eu cynrychioli’n briodol mewn cyfarfodydd ffurfiol y Cyd-bwyllgor Archwilio.

Hefyd yn bresennol fydd:

- Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Cyfarwyddwr Cyllid, Heddlu Dyfed-Powys
- Archwilwyr Mewnol
- Archwilwyr Allanol
- Uwch Reolwr – Llywodraethu a Newid
- Pennaeth Cyllid Corfforaethol
- Swyddogion eraill o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a’r heddlu yn ôl yr angen

Gall aelodau’r pwyllgor hefyd eistedd fel cynghorwyr ar y grwpiau heddlu canlynol, i gefnogi eu rôl:

- Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol
- Grŵp Llywodraethiant Archwilio
- Bwrdd Pobl, Diwylliant a Moeseg

- Grŵp Ystadau Strategol
- Bwrdd Sicrhau Gwybodaeth
- Bwrdd Fflyd Strategol
- Bwrdd Cyllid Strategol y Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Bwrdd Newid a Thrawsnewid
- Bwrdd Cynllunio Gweithlu Strategol

Gwahoddir pob aelod i arwain mewn maes lle mae ganddynt wybodaeth arbenigol, a gallant gyfathrebu â staff a swyddogion perthnasol y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol er mwyn hysbysu gweddill y pwyllgor ac i roi sicrwydd i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl.

## 9. YSGRIFENYDDIAETH

Bydd gweinyddiaeth i gynorthwyo'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn cael ei darparu gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Darperir agendâu a phapurau i'r aelodau i'w hystyried bum diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

Bydd yr agenda, adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd ffurfiol ar gael yn ddwyieithog, lle bo modd, ar wefan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Bydd y cyfarfodydd yn cynnwys sesiwn agored (a gynhelir yn gyhoeddus). Os oes eitemau ar yr agenda na ellir eu trafod mewn sesiwn agored, cynhelir sesiwn gaeedig yn dilyn hynny. Bydd unrhyw benderfyniad a wneir i gynnal elfen o'r cyfarfod mewn sesiwn gaeedig yn seiliedig ar yr egwyddorion hynny a amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol 1972.

Bydd y cadeirydd yn cyfarfod mewn sesiwn gaeedig gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn flynyddol, neu yn ôl yr angen. Bydd pob aelod yn cyfarfod mewn sesiwn gaeedig gyda'r archwilydd mewnol ac allanol o leiaf unwaith y flwyddyn.

Cynhelir hyfforddiant a digwyddiadau eraill yn rheolaidd, a disgwylir i aelodau fod yn bresennol.

## 10. RHEOLI FERSIYNAU A DYDDIAD ADOLYGU

| | |
|---|---|
| Fersiwn: | 08-2025 |
| Awdur: | Neil Evans |
| Dyddiad cymeradwyo: | 26 Mawrth 2025 |
| Bwrdd cymeradwyo: | Y Cydbwyllgor Archwilio |
| Dyddiad adolygu: | Gorffennaf 2027 |